| | |
|---|---|
| Cyfarfod | Fforwm Cyllid Ysgolion (Gwynedd) |
| Dyddiad | 28.09.20 |
| Swyddog | Ffion E Ellis |
| Teitl yr Eitem | Cyllid ADY |

# Gweithgor Cyllid ADY

Medi 2019 Cyflwynwyd Adroddiad Ymchwiliad Gwariant Cyllid Integreiddio i Fwrdd Rheoli Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad. Cynigwyd bod y gwaith yn parhau trwy sefydlu gweithgor ymgynghori gydag ysgolion. Cynrychiolaeth i gael ei adnabod trwy'r grwpiau strategol Penaethiaid yng Ngwynedd ac Ynys Môn a'r adrannau cyllid. Adrodd i Fforymau Cyllid Gwynedd ac Ynys Môn pan yn amserol

Ionawr a Chwefror 2020 Bu Arolygiad Allanol o'r Gwasanaeth ADY a CH yn ystod y cyfnod hwn. Roedd canfyddiadau'r Arolwg yn cadarnhau'r hyn sydd wedi ei gynnig o ran opsiynau ac argymhellion y Bwrdd Rheoli.

Mawrth 2020 Bu i aelodaeth ar gyfer y grŵp gael eu hadnabod trwy ofyn am gynrychiolaeth drwy'r grwpiau strategol:

- *1 o Bennaethiaid Ffederasiwn Gwynedd*
- *1 o Grŵp Strategol Uwchradd Gwynedd*
- *1 o Bennaethiaid Uwchradd Môn*
- *1 o Grŵp Strategol Pennaethiaid Cynradd Môn*
- *Uwch Reolwr ADY a CH*
- *Cynrychiolaeth Adrannau Gyllid Gwynedd a Môn*
- *Rheolwr Prosiect ADY a CH*

Bu i'r Gweithor gyfarfod ar y 12fed o Fawrth ychydig cyn y cyfnod clo. Bu trafodaeth ogwmpas yr Adroddiad Ymchwiliad Gwariant Cyllid Integreiddio, yn enweidig opsiynau sydd yn cael eu cyflwyno o fewn yr adroddiad. Bu i bwyntiau gweithredu gael eu pennu, gyda amserlen gweithredu yn seiliedig ar dymor arferol i ddilyn. Yn sgil y cyfnod clo bydd angen adolygu'r amserlen ar gyfer gweithredu:

## Cynllun Gweithredu:

| | Beth? | Pwy? | Amserlen wreiddiol | Amserlen ddiwygiedig (oherwydd COVID-19) |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymchwilio fformiwla Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru | FfEE | Mai 2020 | Rhagfyr 2020 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2 | (a) Modelu opsiwn 1 2 a 3 (+ opsiwn 2 a 3 yn cael eu cyfuno) mewn dalgylchoedd penodol<br>• Y sefyllfa bresennol<br>• Ar sail Fformiwla (o'r opsiynau)<br>(b) Gwynedd / Môn i edrych ar ddalgylchoedd y sir arall i fodelu ar sail<br>Modelau yn cael eu cyflwyno | Adrannau Cyllid | Mehefin 2020 | Ionawr 2021 |
| 3 | Gwahodd cynrychiolaeth o Adnoddau Dynol i Weithgor Mehefin 2020 | CH | Mehefin 2020 | Ionawr 2021 |
| 4 | Cytuno ar gynllun cyfathrebu | Aelodaeth y Gweithgor Cyllid ADY | I'w drafod Mehefin 2020 | I'w drafod Ionawr 2021 |
| *5* | *Cyflwyno modelau posib i Fforymau Cyllid Gwynedd ac Ynys Môn* | | *Amserlen Tachwedd 2021* | |